# Cronfa Gystadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru Prosiect Natura 2000 Cynffig

**Mark Blackmore Ionawr 2018**

## Adroddiad Allbwn



## Cynnwys


Prosiect Natura 2000 Cynffig Cronfa Gystadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru .......................... 1

Adroddiad Allbwn .......................................................................................... 1

1. Allbynnau .......................................................................................... 4

1.1 Beth yw'r allbynnau a grëir gan eich prosiect, sut fyddwch chi yn eu mesur ac erbyn pryd fyddwch chi wedi eu cyflawni? .......................................................................... 4

2. Cynnydd ar Allbynnau .......................................................................................... 5

2.1 Gwella cynefin – Atal neu wrthdroi sefydlogi twyni. .......................................................... 5

2.1.1 2015 / 2016 .......................................................................................... 5

2.1.2 2016 / 2017 .......................................................................................... 6

2.1.3 2017 / 2018 .......................................................................................... 8

2.2 Gwella Cynefin - Lleihau rhywogaethau ymledol. .......................................................... 11

2.2.1 2015 / 2016 .......................................................................................... 11

2.2.2 2016 / 2017 .......................................................................................... 12

2.2.3 2017 / 2018 .......................................................................................... 13

2.3 Gwella Cynefin – lleihau baeddu gan gŵn .......................................................... 13

2.3.1 2015 / 2016 .......................................................................................... 14

2.3.2 Gwaith ychwanegol rhwng y cais a diwedd y flwyddyn ariannol 2016 ................ 15

2.3.3 2016 / 2017 .......................................................................................... 16

2.3.4 2017 / 2018 .......................................................................................... 17

2.4 Gwella, creu mynediad – rhesymoli hawliau tramwy. .......................................................... 19

2.4.1 2015 / 2016 .......................................................................................... 19

2.4.2 Gwaith ychwanegol rhwng y cais a diwedd y flwyddyn ariannol ......................... 20

2.4.3 2016 / 2017 .......................................................................................... 22

2.4.4 2017 / 2018 .......................................................................................... 24

2.5 Gweithgareddau gwirfoddoli .......................................................................................... 25

2.5.1 2015 / 2016 .......................................................................................... 25

2.5.2 2016 / 2017 .......................................................................................... 26

2.5.3 2017 / 2018 .......................................................................................... 27

2.6 Ymweliadau Addysgol – Ysgolion Cynradd .......................................................... 28

2.6.1 2015 / 2016 .......................................................................................... 28

2.6.2 Gwaith ychwanegol rhwng y cais a diwedd y flwyddyn ariannol 2016 ................ 29

2.6.3 2016 / 2017 .......................................................................................... 30

2.6.4 2017 / 2018 ..... 31
2.7 Ymweliadau Addysgol – Ysgolion Uwchradd ..... 32
2.7.1 2015 / 2016 ..... 32
2.7.2 2016 / 2017 ..... 33
2.7.3 2017 / 2018 ..... 34
2.8 Ymweliadau addysgol – Addysg uwch ac Addysg bellach. ..... 35
2.8.1 2015 / 2016 ..... 35
2.8.2 2016 / 2017 ..... 36
2.8.3 2017 / 2018 ..... 36
2.9 Gweithgareddau Addysgol ..... 37
2.9.1 2015 / 2016 ..... 37
2.9.2 2016 / 2017 ..... 38
2.9.3 2017 / 2018 ..... 39
2.10 Lleoliadau gwaith strwythuredig ..... 40
2.10.1 2015 / 2016 ..... 40
2.10.2 2016 / 2017 ..... 41
2.10.3 2017 / 2018 ..... 42
3. Gwerth Ychwanegol a Ychwanegwyd gan y Grant ..... 43
3.1 Gwella cynefin – Atal neu wrthdroi sefydlogi twyni. ..... 43
Roedd y targed ychwanegol i ymgyrraedd ato wedi ei ddyblu ym mlwyddyn dau gyda 20,000m2 o lac twyni wedi eu creu. ..... 43
3.2 Gwella cynefin - Lleihau rhywogaethau ymledol. ..... 43
3.3 Ymweliadau addysgol – Addysg a hyfforddiant i oedolion. ..... 44

## 1. Allbynnau

### 1.1 Beth yw'r allbynnau a grëir gan eich prosiect, sut fyddwch chi yn eu mesur ac erbyn pryd fyddwch chi wedi eu cyflawni?

| | Allbwn | Mesur | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | **Gwella cynefin – Atal neu wrthdroi sefydlogi twyni.** | **500m2** | **Erbyn diwedd blwyddyn 3** |
| 2 | **Gwella cynefin - Lleihau rhywogaethau ymledol.** | **500m2** | **Y flwyddyn** |
| 3 | **Gwella cynefin – Lleihau baeddu gan gŵn.** | **10,000m2** | **Erbyn diwedd blwyddyn 2** |
| 4 | **Gwella, creu mynediad – rhesymoli hawliau tramwy.** | **3km** | **Erbyn diwedd blwyddyn 3** |
| 5 | **Gweithgareddau Gwirfoddoli** | **12 o ddigwyddiadau a 120 o wirfoddolwyr** | **Erbyn diwedd blwyddyn 3** |
| 6 | **Ymweliadau addysgol – Ysgolion Cynradd** | **20 Grŵp** | **Y flwyddyn** |
| 7 | **Ymweliadau addysgol – Ysgolion Uwchradd** | **20 Grŵp** | **Y flwyddyn** |
| 8 | **Ymweliadau addysgol – Addysg bellach ac addysg uwch.** | **10 Grŵp** | **Y flwyddyn** |
| 9 | **Gweithgareddau Addysgol** | **4 Digwyddiad<br>120 o gyfranogwyr** | **Y flwyddyn** |
| 10 | **Lleoliadau gwaith strwythuredig** | **3 Grŵp<br>30 o gyfranogwyr** | **Erbyn diwedd blwyddyn 3** |

# 2. Cynnydd ar Allbynnau

## 2.1 Gwella cynefin – Atal neu wrthdroi sefydlogi twyni

Gwella cynefin – Atal neu wrthdroi sefydlogi twyni, erbyn diwedd blwyddyn 3.

**Canlyniad:** Bydd y 500m2 o gynefin sydd wedi ei wella drwy atal neu wrthdroi sefydlogi twyni yn adfer ac yn amddiffyn cymeriad tirwedd y warchodfa ac yn darparu cynefin twyni llac ar gyfer rhywogaethau cynhenid.

### 2.1.1 2015 / 2016



Eleni, mae Grant Cystadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi caniatáu i Staff y Warchodfa a gwirfoddolwyr ganolbwyntio ar glirio prysgwydd a thorri gwair dros rannau helaeth o'r warchodfa gan atal llystyfiant rhag ennill tir a hefyd gwrthdroi sefydlogi twyni. Mae'r grant wedi talu am ddau beiriant torri gwair petrol o safon uchel y mae'r gwirfoddolwyr wedi bod yn eu defnyddio ar laswelltir y warchodfa. Mae hyn wedi ei gwneud hi'n bosibl i dorri gwair yn yr ardaloedd canlynol sydd yn gynefinoedd pwysig i degeirian y fign galchog:

- Llac cwymp mawr (Cyfeirnod Grid: SS78898203) 100m2
- I'r gorllewin o lac cwymp mawr (Cyfeirnod Grid: SS78798205) 400m2
- O'r llwybr i lac postyn-L (Cyfeirnod Grid: SS78688113) 100m2

Un broblem a amlygwyd wrth ddatblygu'r prosiect hwn oedd y ffaith bod nifer fawr o goed yn gwneud gwaith clirio prysgwydd yn anodd. Mae hyn yn arafu neu hyd yn oed yn atal y gwirfoddolwyr wrth iddynt geisio clirio llystyfiant yn yr ardal honno, ac mae'n rhaid i'r Warden ddychwelyd i dorri'r coed.

Eleni, gwariwyd yr arian a neilltuwyd ar gyfer llogi contractwyr a pheiriannau ar gontractwyr llifiau cadwyn i weithio ochr yn ochr â'r gwirfoddolwyr, i gael gwared ar goed mawr er mwyn rhyddhau'r warden i reoli'r gwirfoddolwyr. Mae hyn wedi gwneud y gwaith o glirio llystyfiant yn fwy effeithiol a chynhyrchiol. Amcangyfrifir y bydd yn rhaid clirio a gwella 1000m2 o gynefin yn y modd hwn yn Adran dde-orllewin Pwll Cynffig (Cyfeirnod Grid: SS790809).

Bwriad grant Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Cynffig yw gwella'r ffordd y mae safle Natura 2000 yn cael ei reoli er mwyn i staff gael canolbwyntio ar amddiffyn a gwella'r cynefin. Mae'r dull hwn o weithredu yn rhoi mwy o amser i'r warden ganolbwyntio ar dorri gwair yn yr hydref. Fel y gwelir isod, mae hyn wedi ei gwneud hi'n bosibl i wella cynefin ar raddfa fawr a chafodd 161,000m2 o gynefin ei wella eleni.



Felly cafodd 162,600m2 o gynefin ei wella drwy atal neu wrthdroi sefydlogi twyni.

### 2.1.2 2016 / 2017

Yn ystod hydref a gaeaf 2016, cynhaliwyd y prosiect creu cynefin llac twyni mwyaf uchelgeisiol ers i Gyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio peiriannau trwm i greu cwympiadau twyni ger yr arfordir, ymhell i mewn i'r warchodfa, nifer o flynyddoedd yn ôl. Fe wnaethom ni ymgymryd â phrosiect i greu cynefin llac twyni yn llac y de, i'r de o Bwll Cynffig. Y bwriad oedd creu cynefin llac twyni y gallai grwpiau addysg ei astudio heb orfod teithio am oriau drwy'r warchodfa.



Mae llac y de wedi tyfu'n wyllt ers blynyddoedd ac wrth i'r llac dyfu'n fwy coediog cofnodwyd llai a llai o fadfallod y dŵr (yn cynnwys y Fadfall Ddŵr Gribog). Bwriad prosiect creu cynefin llac y de oedd ymestyn y dull o weithredu o ddefnyddio gwirfoddolwyr a chontractwyr gyda'i gilydd i weithio'n gyflymach ac yn fwy effeithiol. Fe wnaethom ni hefyd ymestyn y dull gweithredu drwy drefnu bod ein lleoliadau gwaith ar gyfer myfyrwyr Bagloriaeth Cymru a myfyrwyr prifysgol Abertawe yn cyd-ddigwydd â'r prosiect mawr hwn. Rhoddodd hyn gyfle i'r myfyrwyr weithio ochr yn ochr â staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gwirfoddolwyr eraill a chontractwyr.

Nod y prosiect uchelgeisiol hwn oedd datgoedwigo'r ardaloedd coediog ar raddfa fawr, clirio boncyffion a phrysgwydd i adael dim ond tywod. Oherwydd bod y safle yn un sensitif a bod yn rhaid gweithio dan drwydded, contractiwyd yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC) i wneud y gwaith ochr yn ochr â'r gwirfoddolwyr a'r myfyrwyr.



Fe gymerodd y prosiect nifer o wythnosau i'w gwblhau a llawer iawn o amser staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, amser contractwyr, amser lleoliadau gwaith ac amser gwirfoddolwyr. Cafodd y coetir ei glirio'n gyfan gwbl a **chrëwyd 20,000m2 o lac twyni.** Felly crëwyd cynefin llac twyni oedd bedair gwaith yn fwy na tharged y prosiect i greu cynefin llac twyni yn yr allbwn hwn.






## 2.1.3 2017 / 2018



Y newidiadau rheoli a weithredwyd yn y blynyddoedd a fu gan Gyfoeth Naturiol Cymru / Cynllun Datblygu Gwledig, Natura 2000 yw'r dull o weithredu arferol yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig erbyn hyn. Mae'r gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi a'u rheoli'n well ac mae'r gwaith yn cael ei gydlynu er mwyn i wirfoddolwyr, myfyrwyr lleoliad gwaith a chontractwyr weithio ochr yn ochr â'i gilydd. Mae cydlynu fel hyn yn golygu bod y gwaith o glirio prysgwydd i wrthdroi sefydlogi twyni wedi cynyddu 80%.

Drwy gydol 2017, bu gwirfoddolwyr yn clirio dolydd eang gyda'r peiriannau torri gwair, yn clirio prysgwydd ac yn cynyddu ardaloedd ar gyfer tractorau torri gwair. Hefyd buont yn parhau â'r gwaith o adfer ardal lac y de, clirio prysgwydd a choed i adfer cynefin llac twyni.



Roedd effaith y clirio yn sylweddol yn ystod misoedd y gaeaf (gweler uchod) oherwydd cliriwyd prysgwydd a choed dros ardaloedd eang.
Roedd angen addysgu'r cyhoedd er mwyn iddyn nhw hefyd gael budd o'r hyn yr oedd y prosiect yn ceisio ei gyflawni o ran creu cynefin newydd. Cawsom gymorth yn hyn o beth gan bâr o gornchwiglod a gyrhaeddodd yn y gwanwyn, wedi eu denu gan y cynefin newydd. Roedd y cnwd mawr o degeirianau porffor a dyfodd yn y llac newydd yn hwyrach yn y gwanwyn yn dangos gwerth y gwaith clirio a ariannwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'r Cynllun Datblygu Gwledig.



Mae cyfanswm o 103,953 m2 o gynefin wedi ei wella drwy atal neu wrthdroi sefydlogi twyni yn 2017. Canlyniad y prosiect tair blynedd yw bod ardal 286,553m2 wedi ei gwella. Mae hyn yn fwy o lawer na'r targed o 500m2 a nodwyd yn y cais am grant. Mae hefyd yn fwy na'r targed i ymgyrraedd ato, sef atal neu wrthdroi sefydlogi twyni dros ardal o10,000m2 y flwyddyn a osodwyd gennym ni ein hunain ar ôl iddi ddod yn amlwg yn ystod y flwyddyn gyntaf y byddwn yn rhagori ar ein targed heb drafferth o gwbl.



## 2.2 Gwella Cynefin - Lleihau rhywogaethau ymledol

Gwella Cynefin - Lleihau rhywogaethau ymledol, 500m2 y flwyddyn.

**Canlyniad:** Bydd y 500m2 o gynefin a fydd wedi ei wella drwy leihau rhywogaethau ymledol yn helpu i'w hatal rhag ymledu. Gwneir hyn drwy eu clirio cyn iddyn nhw gynhyrchu hadau. Bydd hefyd yn galluogi rhywogaethau cynhenid i ffynnu heb orfod cystadlu yn erbyn y rhywogaethau ymledol. Mae troi cefn ar y rhywogaethau ymledol a rhoi mwy o bwyslais ar blanhigion cynhenid yn creu cynefin sy'n fwy amrywiol ac yn cynyddu bioamrywiaeth.

### 2.2.1 2015 / 2016



I gyflawni'r allbwn hwn, bu staff a gwirfoddolwyr Cynffig yn brwydro yn erbyn Jac y Neidiwr ar y safle. Gwnaed y gwaith o glirio Jac y Neidiwr ger y maes carafanau ac amcangyfrifir bod 10,000m2 o'r rhywogaeth ymledol hon wedi'u clirio.

### 2.2.2 2016 / 2017



Y bygythiad mwyaf i gynefinoedd Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig yw’r sefydlogi twyni gan brysgwydd sy’n ennill tir. Cytunwyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a grŵp llywio’r prosiect fod prysgwydd yn rhywogaeth ymledol ar y safle hwn. Mae’r gwirfoddolwyr wedi parhau i frwydro yn erbyn Jac y Neidiwr ar y safle ac wedi helpu i glirio prysgwydd a defnyddio’r peiriannau torri gwair a brynwyd gan y prosiect y llynedd.

Oherwydd i’r safle gael ei reoli’n well diolch i gronfa gystadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru ac arian cyfatebol y Cynllun Datblygu Gwledig, mae’r warden yn rhydd i wneud gwaith eang gyda’r tractor torri gwair yn yr hydref. Mae’r ymdrechion hyn i gyd gyda’i gilydd wedi **gwella 7500m2 o gynefin drwy glirio rhywogaethau ymledol**, sydd 15 gwaith y targed eleni.

### 2.2.3 2017 / 2018



Mae clirio prysgwydd wedi parhau ym mlwyddyn tri prosiect Natura 2000, ac unwaith eto mae'n effeithiol oherwydd y dull o weithio cyflymach ac arloesol diolch i arian Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Eleni, rydym ni wedi **gwella 26,544m2 o gynefin drwy glirio rhywogaethau ymledol**. Mae hyn eto yn fwy na tharged y flwyddyn ac yn rhoi ffigwr terfynol o **44,044** ar gyfer gwella cynefin drwy glirio rhywogaethau ymledol. Mae hyn yn fwy o lawer na'r targedau a osodwyd gan y cais am arian gwreiddiol.

## 2.3 Gwella Cynefin – lleihau baeddu gan gŵn

Gwella Cynefin – lleihau baeddu gan gŵn, 10,000m2 erbyn diwedd blwyddyn 3.

**Canlyniad:** Mae'r 10,000m2 (a nodwyd yn anghywir yn 500m2 yn y canlyniadau yn y cais) o gynefin sydd wedi eu gwella yn creu amgylchedd mwy diogel a phleserus i ymwelwyr, grwpiau ysgol, staff a gwirfoddolwyr. Mae'n annog mwy o ymwelwyr i ddod i'r safle ac i ddychwelyd drachefn.

Mae'r 10,000m2 yn cynrychioli'r warchodfa gyfan a ddylai gael ei gwella drwy leihau baeddu gan gŵn ar draws y safle.

### 2.3.1 2015 / 2016



Prynwyd biniau newydd mwy ymarferol i annog pobl i glirio ar eu holau a thaflu llai o sbwriel yn y warchodfa. Mae’r biniau newydd yn cymryd lle’r hen finiau. Mae’r biniau newydd wedi’u gwneud o blastig wedi ei ailgylchu, a byddant yn gwrthsefyll amgylchedd garw Cynffig yn well na’r hen finiau, sy’n golygu y byddant yn edrych yn well am fwy o amser. Mae’r biniau newydd yn fwy ac yn haws eu gwagio sy’n datrys y broblem o orlenwi ar adegau prysur. Y biniau newydd yw camau cadarnhaol cyntaf yr Ymgyrch Yn Erbyn Baeddu Gan Gŵn a glustnodwyd ar gyfer blwyddyn dau.

Gosodwyd arwyddion Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig ar fynediadau allweddol y Warchodfa  (yn cynnwys yr ail faes parcio a Llwybr Arfordir Cymru) er mwyn i ymwelwyr wybod pryd y maen nhw’n dod i mewn i’r Warchodfa.  Ymddengys y ceir camsyniad ymhlith yr ymwelwyr hynny sy’n dod i mewn i’r Warchodfa ar hyd llwybrau ar wahân i lwybr y prif faes parcio, bod hyn yn rhoi’r hawl iddyn nhw anwybyddu’r amodau ynghylch baeddu gan gŵn o fewn y Warchodfa. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos yr ail faes parcio. Mae’r arwyddion newydd yn ei gwneud hi’n hollol glir i bobl eu bod yn dod i mewn i’r Warchodfa ni waeth pa lwybr y maen nhw’n ei ddewis. Bwriad hyn yw lleihau’r achosion o faeddu gan gŵn yn yr ardaloedd hynny.

### 2.3.2 Gwaith ychwanegol rhwng y cais a diwedd y flwyddyn ariannol 2016





Yn ystod y ddau fis rhwng cais 2015 / 2016 a diwedd y flwyddyn ariannol gosodwyd y biniau ar draws y warchodfa. Mae'r biniau hyn yn fwy deniadol na'r hen rai a gobeithio bydd hyn yn annog ymwelwyr i'w defnyddio. Mae ceg y bin yn lletach ar gyfer sbwriel mwy o faint a oedd yn arfer cael ei osod wrth ochr yr hen finiau. Mae staff a gwirfoddolwyr y Warchodfa wedi sylwi bod llai o orlenwi ar adegau prysur oherwydd bod y biniau newydd yn fwy, ac yn haws eu gwagio.





### 2.3.3 2016 / 2017



Cafodd llawer o waith ei wneud yn 2016 i leihau'r achosion o faeddu gan gŵn ac i annog perchnogion cŵn i fod yn fwy cyfrifol yn y warchodfa. Mae gan yr elusen PONT (Pori, Natur a Threftadaeth) nodau tebyg, sef lleihau achosion o faeddu gan gŵn a gwella ymddygiad perchnogion cŵn. Ar 11 Mehefin 2016, ar y cyd â PONT, fe drefnodd Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig ddigwyddiad i godi ymwybyddiaeth o sut y mae cŵn yn ymddwyn dan yr enw "Cŵn a Charnau". Roedd yn canolbwyntio ar faeddu gan gŵn a phwysigrwydd cadw cŵn ar dennyn pan fo da byw yn y cyffiniau. Roedd yn ddigwyddiad llawn hwyl gyda sioe gŵn, arddangosiad sioncrwydd cŵn ac anifeiliaid i bobl eu gweld. Daeth tua 50 o bobl i'r digwyddiad.



Hefyd mae'r prosiect wedi bod yn gweithio'n galed eleni ar ymgyrch i wella ymddygiad perchnogion cŵn ar y safle. Cynhaliwyd elfen ymgynghori'r ymgyrch honno eleni. Trefnwyd

digwyddiad ymgynghori diwrnod llawn, ac roedd 50 o bobl wedi galw heibio yn ystod y dydd. Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd â Dogs Trust a oedd ar y safle yn cynnig gwasanaeth gwirio sglodion a microsglodynnu am ddim i gŵn heb sglodion. Roedd hwn yn atyniad poblogaidd gan ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i ficrosglodynnu cŵn. Wrth hysbysebu fe ddywedom ni ein bod yn awyddus i glywed barn pobl a'u syniadau ynghylch gwella ymddygiad cŵn ar y safle. Mae'n bwnc sy'n ennyn teimladau eithaf cryf a chawsom wybodaeth ansoddol drwy holiadur a thrwy gyfweliadau manwl gydag ymwelwyr i drafod yr holiadur. Cafodd 31 o gŵn un ai eu microsglodynnu am y tro cyntaf neu fe gywirwyd gwybodaeth anghywir yn eu sglodion.




Yn ystod y digwyddiad, roedd 50 o bobl wedi cymryd rhan mewn arolwg. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn yr ymgynghoriad wedi ei dadansoddi a'i defnyddio i gynllunio ymgyrch ymwybyddiaeth ar gyfer Mai / Mehefin 2017, a'r nod yw lleihau achosion o faeddu gan gŵn ar draws y safle i gyd erbyn diwedd y prosiect.

### 2.3.4 2017 / 2018




Ym mlwyddyn olaf y prosiect, rydym ni wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymddygiad da gan gŵn ar y safle, gan gynnwys pwysigrwydd glanhau ar ôl i gŵn faeddu. Parhau hefyd y mae'r gweithio mewn partneriaeth â Pharc Bryngarw, Yr Ymddiriedolaeth Natur, PONT a Chyfoeth Naturiol Cymru (yn enwedig prosiect Ysbryd Llynfi Cyfoeth Naturiol Cymru) i rannu syniadau ynghylch lleihau achosion o faeddu gan gŵn a hyrwyddo ymddygiad da gan gŵn.

Rydym ni wedi datblygu hyfforddiant ar gyfer Wardeniaid Cŵn Gwirfoddol, ac wedi recriwtio gwirfoddolwyr a'u hyfforddi'n wardeniaid. Maen nhw nawr yn mynd ati i batrolio'r warchodfa. Mae'r hyfforddiant nawr ar gael i gyrff sy'n bartneriaid a bydd mwy o hyfforddiant ar gael yn 2018. Codwyd arwyddion i roi gwybod i bobl bod y gwardeiniaid gwirfoddol ar y safle ac y byddant yn eich herio ynghylch unrhyw achos o faeddu gan gi. Canlyniad y gwaith hwn yw bod achosion o faeddu gan gŵn wedi lleihau ar draws y Warchodfa, ac o ganlyniad, mae'r cynefin wedi gwella. Felly rydym ni wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cyflawni'r allbwn hwn yn y prosiect.



## 2.4 Gwella, creu mynediad – rhesymoli hawliau tramwy

Gwella, creu mynediad – rhesymoli hawliau tramwy. 3km erbyn diwedd blwyddyn 3.

**Canlyniad:** Bydd 3km o fynediad sydd wedi ei wella drwy resymoli hawliau tramwy yn lleihau unrhyw wrthdaro rhwng y rhai sy'n defnyddio'r warchodfa megis pobl yn cerdded eu cŵn a'r rhai sy'n marchogaeth. Bydd yn gwneud y warchodfa yn fwy hygyrch a bydd yr erydiad o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn helpu i atal sefydlogi twyni.

### 2.4.1 2015 / 2016

Mae Alison Roberts wedi ymuno â Grŵp Llywio'r Prosiect i gynrychioli Hawliau Tramwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Llwybr Arfordir Cymru. Mae llwybrau craidd drwy'r Warchodaf wedi eu nodi. Cynhyrchwyd map newydd ar gyfer y warchodfa sy'n dangos y prif lwybrau hyn.



Gwelir y map yn y prif faes parcio ac ar Wal Canolfan y Warchodfa. Mae’r map hefyd ar gael ar lein ac ar ffurf taflen. Gosodwyd arwyddion Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig ym mhrif fynediadau’r Warchodfa (yn cynnwys yr ail faes parcio a Llwybr Arfordir Cymru) er mwyn i ymwelwyr wybod pryd y maen nhw’n dod i mewn i’r Warchodfa.

### 2.4.2 Gwaith ychwanegol rhwng y cais a diwedd y flwyddyn ariannol 2016

Yn ystod y ddau fis rhwng cais 2015 / 2016 a diwedd y flwyddyn ariannol, cwblhawyd a gosodwyd arwyddion ar y safle. Mae hyn yn cynnwys y dehongliad yng Nghanolfan y Warchodfa.




Gosodwyd dehongliad tebyg yn y prif faes parcio, sy’n cynnwys y map newydd o’r warchodfa. Mae’r dehongliad hwn yn croesawu pobl i’r warchodfa ac yn eu helpu i ganfod eu ffordd o amgylch y warchodfa drwy ddefnyddio’r llwybrau craidd cywir.


KENFIG
CYNFFIG

Mae arwyddion, sydd wedi eu seilio ar logo newydd Cynffig a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect hwn, yn awr wedi eu gosod wrth fynediadau allweddol y warchodfa, yn cynnwys yr ail faes parcio a'r llwybrau sy'n arwain oddi ar Lwybr Arfordir Cymru. Erbyn hyn, mae'n amhosibl dod i mewn i'r warchodfa heb wybod eich bod chi yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig.




### 2.4.3 2016 / 2017




Yn 2016, gwnaethpwyd mwy o waith i wella arwyddion hawliau tramwy a mynediad i'r safle. Mae'r ddau brif lwybr troed wedi eu labelu'n glir fel y gwelir uchod. Newidiwyd hen arwyddion y maes parcio am rai newydd sy'n dangos i ba gyfeiriad y dylech fynd er mwyn cadw at y system unffordd ac i'w gwneud hi'n anos i yrru'n anfwriadol ar rannau lle mae gyrru wedi ei wahardd.



Roedd y mannau parcio i bobl anabl yn edrych yn dreuliedig a bellach ddim yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth ynglŷn â mannau parcio pobl anabl. Rydym wedi defnyddio arian grant y prosiect i ail baentio’r mannau parcio hyn a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth. Y gost fwyaf oedd cael y criw paentio i’r safle, felly er mwyn cael gwerth am arian,  trefnwyd eu bod hefyd yn paentio llinellau melyn dwbl yn y maes parcio gwaelod lle bu nifer o achosion o barcio difeddwl pan oedd y rhwystr ar gau.



Gosodwyd arwyddion â brand Cynffig yn y safle bysiau hefyd.

### 2.4.4 2017 / 2018




Rydym wedi parhau i wella a chynnal arwyddion hawliau tramwy ar draws y safle. Defnyddir dehongliadau o flynyddoedd blaenorol yn fwy yn awr gan ymwelwyr, ac mae'r rhai sy'n marchogaeth yn tueddu i aros ar y llwybrau ceffyl ac mae cerddwyr yn aros ar y llwybrau cerdded. Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol yr achosion o wrthdaro rhwng defnyddwyr.

Anogir ymwelwyr newydd i ddefnyddio'r daflen a ddatblygwyd ac a argraffwyd gan y prosiect er mwyn iddyn nhw gael gweld ble yr oeddent a defnyddio'r llwybrau dynodedig i fynd o amgylch y warchodfa. Mae mynediad wedi gwella oherwydd yr arwyddion gwell ac mae gwirfoddolwyr yn gwneud gwaith cynnal a chadw ac yn clirio prysgwydd ar hyd 3km o hawliau tramwy dynodedig ar y safle. Felly dros dair blynedd y prosiect, rydym wedi cyflawni - **Gwella, creu mynediad - rhesymoli hawliau tramwy, 3km**.



## 2.5 Gweithgareddau gwirfoddoli

Gweithgareddau Gwirfoddoli, 12 o ddigwyddiadau a 120 o wirfoddolwyr erbyn diwedd blwyddyn 3.

**Canlyniad:** Bydd 12 o ddigwyddiadau gwirfoddoli yn cynyddu'r defnydd o'r safle ac yn cyfrannu at wella cynefin drwy weithgareddau rheoli cefn gwlad, megis clirio prysgwydd.

### 2.5.1 2015 / 2016



Mae gwirfoddoli rheolaidd yn digwydd yng Nghynffig bob dydd Mercher a dydd Sul gyda grŵp gwirfoddoli sefydledig a brwdfrydig. Mae grant cystadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei gwneud hi'n bosibl i drefnu digwyddiadau gwirfoddol penodol sydd wedi herio'r gwirfoddolwyr, datblygu eu sgiliau a thargedu gweithgareddau allweddol y mae eu hangen i reoli'r warchodfa'n fwy effeithiol. **Trefnwyd 11 o weithgareddau eleni gyda 86 o bobl yn cymryd rhan**, felly mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gyflawni'r allbwn hwn ym mlwyddyn 3. Dyma restr o'r digwyddiadau:

| Digwyddiad | Dyddiad | Gweithgaredd | Nifer y Gwir.r |
|---|---|---|---|
| 1 | 12/08/15 | Tynnu Jac y Neidiwr – tynnu Jac y Neidiwr a defnyddio peiriant torri prysgwydd. | 8 |
| 2 | 26/08/15 | Torri gwair penodol a thynnu Jac y Neidiwr. Gwirfoddolwyr yn defnyddio'r peiriannau torri gwair newydd ar y tir glas ger y maes parcio. | 9 |
| 3 | 02/09/15 | Clirio cyrs yng Nghuddfan y De gan ddefnyddio peiriannau torri prysgwydd a chyrs. | 8 |
| 4 | 23/09/15 | Cwblhau clirio cyrs yng Nghuddfan y De. | 7 |
| 5 | 30/09/15 | Torri yn Llac Pwll y Gorllewin. Torri'r ddraenen ddu yn ôl o'r llwybr. Trin coesynnau a llosgi toriadau. | 9 |
| 6 | 07/10/15 | Torri a chribinio Pant Tegeirian y fign galchog. Defnyddio peiriannau torri prysgwydd a chribiniau. | 7 |
| 7 | 10/10/15 | Clirio cyrs a choedlannau – Gwirfoddolwyr Cadwraeth Caerdydd a gwirfoddolwyr Dug Caeredin. | 13 |
| 8 | 14/10/15 | Llac Clarke – torri gwair a thorri coed bedw, trin y bonion. | 7 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | 18/11/15 | Llac Twyni Gwlyb – Gwirfoddolwyr yn gweithio ochr yn ochr â chontractwyr yn targedu a chlirio prysgwydd ar raddfa fawr. | 6 |
| 10 | 22/11/15 | Clirio coed mewn llannerch newydd ar y llwybr melyn. | 8 |
| 11 | 25/11/15 | Gwirfoddolwyr yn gweithio ochr yn ochr â chontractwyr i dargedu a chlirio prysgwydd ar raddfa fawr. | 4 |

### 2.5.2 2016 / 2017

Mae'r prosiect hwn yn ei gwneud hi'n bosibl i reoli Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig yn well ac o'r herwydd, gellir trefnu mwy o weithgareddau gwirfoddoli.

| Rhif | Dyddiad | Sefydliad | Nifer | Gweithgaredd | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 23/03/2016 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 6 | Clirio Llannerch y Ddraenen ddu | David Carrington |
| 2 | 30/03/2016 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 6 | Atgyweirio Llwybr Pren Cuddfan y Gogledd | David Carrington |
| 3 | 25/04/2016 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 7 | Clirio'r Olygfan | David Carrington |
| 4 | 27/04/2016 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 6 | Blychau Ystlumod Cuddfan y Gogledd | David Carrington |
| 5 | 11/05/2016 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 8 | Rheoli Cynefin y Mochyn Daear | David Carrington |
| 6 | 21/06/2016 | Banc Lloyds | 10 | Diwrnod Gwirfoddoli'r Staff | Rachel Owen |
| 7 | 19/10/2016 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 7 | Torri a chribinio llwybrau marchogaeth Cuddfan y De | David Carrington |
| 8 | 23/10/2016 | Gwirfoddolwyr Cadwraeth Caerdydd | 13 | Clirio argloddiau prysgwydd / cyrs | Julia |
| 9 | 26/10/2016 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 5 | Clirio Coed Helyg Llac y De | David Carrington |

Eleni, cafwyd **9 o weithgareddau â 68 o bobl yn cymryd rhan**.  Mae hyn yn rhoi cyfanswm o **20 o weithgareddau â 154 o bobl yn cymryd rhan**. Felly, heblaw'r digwyddiadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf, rydym ni eisoes wedi cyrraedd ein targed ar gyfer digwyddiadau gwirfoddol ar gyfer yr allbwn hwn.

### 2.5.3 2017 / 2018

Erbyn hyn, mae gweithgareddau gwirfoddol yn chwarae rhan ganolog yn y ffordd y mae'r Ardal Cadwraeth Arbennig yn cael ei rheoli'n well oherwydd arian y prosiect. Cafwyd cynnydd arwyddocaol yn nifer y digwyddiadau gwirfoddol eleni.

| Rhif | Dyddiad | Sefydliad | Nifer | | Gweithgaredd | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 25/01/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 7 | | Clirio'r Llwybr Ceffylau Deheuol | David Carrington |
| 2 | 08/01/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 8 | | Clirio Llac Crelin | David Carrington |
| 3 | 22/02/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 10 | | Clirio Coed Bedw | David Carrington / Rob Jones |
| 4 | 08/03/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 6 | | Atgyweirio Cuddfan y Gogledd | David Carrington |
| 5 | 22/03/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 7 | | Clirio ochr yn ochr â'r contractwr | David Carrington |
| 6 | 19/04/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 1 | 7 | Trawslun Glöynnod Byw | David Carrington |
| 7 | 26/04/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 1 | 9 | Clirio o amgylch y Ganolfan | David Carrington |
| 8 | 28/06/2017 | Cyfoeth Naturiol Cymru / GNG Cynffig | 1 | 12 | Arolwg Tegeirian y fign galchog | Emma Brown / D. Carrington |
| 9 | 19/07/2017 | Cyfoeth Naturiol Cymru / GNG Cynffig | 1 | 12 | Arolwg Tegeirian y fign galchog | Emma Brown / D. Carrington |
| 10 | 26/07/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 1 | 8 | Tynnu llysiau'r gingroen | David Carrington |
| 11 | 02/08/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 1 | 7 | Torri gwair y llac a hadu Tegeirianau | David Carrington |
| 12 | 27/09/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 1 | 8 | Torri gwair a chribinio Llaciau'r Tegeirian | David Carrington |
| 13 | 01/11/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 1 | 9 | Clirio Llac Odin | David Carrington |
| 14 | 08/11/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 1 | 8 | Clirio llwybrau nofio pysgod | David Carrington |
| 15 | 21/11/2017 | Tîm Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru | 1 | 6 | Gwirfoddolwyr yn Clirio Prysgwydd | Natalie Wrangham |
| 16 | 13/12/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 1 | 8 | Gweithio ochr yn ochr â'r contractwr | David Carrington |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | 20/12/2017 | Gwirfoddolwyr Cynffig | 1 | 8 | Gweithio ochr yn ochr â'r contractwr | David Carrington |
| | | Cyfanswm | 17 | 140 | | |

Eleni, cynhaliwyd **17 o weithgareddau â 140 o bobl yn cymryd rhan**. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o **37 o weithgareddau â 294 o bobl yn cymryd rhan.** Mae hyn yn fwy o lawer na'r targed o 12 o ddigwyddiadau a 120 o wirfoddolwyr erbyn diwedd blwyddyn 3.

## 2.6 Ymweliadau Addysgol – Ysgolion Cynradd

20 o Grwpiau y flwyddyn.

**Canlyniad:** Bydd 20 o ymweliadau addysgol gan ysgolion cynradd yn cynyddu'r defnydd o'r safle ac yn dangos i blant fod planhigion ac anifeiliaid angen cartrefi a bod gwahanol gynefinoedd yn darparu amrywiaeth o gartrefi i'r planhigion a'r anifeiliaid hynny.

### 2.6.1 2015 / 2016

Er i arian Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei gadarnhau erbyn mis Ebrill 2015, ni chafodd arian cyfatebol y Cynllun Datblygu Gwledig ei gymeradwyo tan fis Awst 2015. Felly dechreuodd y prosiect ar ôl i'r flwyddyn ysgol ddod i ben. Roedd hyn yn golygu mai'r unig gyfnod ar gael i grwpiau ysgolion cynradd oedd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2015. Misoedd y gaeaf yw'r rhai mwyaf anaddas ar gyfer ymweliadau gan ysgolion cynradd felly ni wnaethom ni gyrraedd y targed hwn eleni.

Dylai misoedd y gwanwyn a'r haf yn 2016 fod yn fwy addas ar gyfer ymweliadau gan ysgolion cynradd, a gobeithiwn y byddwn ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed.

### 2.6.2 Gwaith ychwanegol rhwng y cais a diwedd y flwyddyn ariannol 2016

Comisiynwyd artist lleol i greu gwaith celf ar gyfer wal Canolfan y Warchodfa i groesawu pobl. Ar ôl ymgynghori â’r cyhoedd a rhanddeiliaid, cytunwyd y byddai lluniau o brif rywogaethau’r warchodfa yn cael eu paentio ar y wal. Datblygwyd cynllun y gwaith celf drwy gydweithio â disgyblion Ysgol Afon Y Felin sy’n agos i’r Warchodfa Natur. Yn rhan o’r comisiwn, fe gynhyrchodd yr artist waith celf ar gyfer yr ysgol hefyd. Dyma luniau o’r gwaith yn mynd rhagddo yn yr ysgol ac enghreifftiau o’r gwaith celf.










Dyma’r gwaith celf gorffenedig yn y Warchodfa Natur.



### 2.6.3 2016 / 2017




Mae'r gweithgareddau addysgol yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd y prosiect hwn. Mae arwyddion a byrddau dehongli'r safle wedi gwella ac mae gan y warchodfa daflen wych. Cynhyrchwyd pecynnau i'w lawrlwytho gan athrawon a theuluoedd cyn iddynt ymweld â'r safle. Mae'r pecynnau yn cynnwys cynlluniau gwersi ac asesiadau risg sy'n ei gwneud hi'n haws i ddod â disgyblion i'r safle lle byddant yn mwynhau gweithgareddau gwerth chweil. Mae mwy o ysgolion wedi defnyddio'r safle eleni ond cafwyd ychydig o broblemau pan gyrhaeddodd rhai ysgolion heb roi gwybod i ni ymlaen llaw. Yn ogystal â chreu problemau iechyd a diogelwch drwy beidio â rhoi gwybod i staff y warchodfa eu bod yn ymweld â'r safle, mae'n anffodus nad yw eu hymweliadau yn cael eu cofnodi ar gyfer y prosiect chwaith. Dyma'r ymweliadau a gafodd eu cofnodi:

| Rhif | Dyddiad | Sefydliad | Grwpiau | Nifer | Gweithgaredd |
|---|---|---|---|---|---|
